# ADRODDIAD I'R CABINET

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | **7 Mawrth 2017** |
| **Aelod Cabinet** | **Y Cynghorydd Peredur Jenkins** |
| **Pwnc** | **Strategaeth Arbedion 2015/16 – 2017/18:<br>Adroddiad cynnydd ar wireddu cynlluniau arbedion** |
| **Swyddog Cyswllt** | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid** |

---

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

A. Nodi'r cynnydd calonogol tuag at wireddu'r cynlluniau arbedion 2015/16 – 2017/18.

B. Derbyn yn ffurfiol fod dau gynllun hanesyddol am ddisgyn yn fyr o'r targed arbedion sef:

| | | |
|---|---|---|
| Cynllun 2013/14 | Hwb Rhanbarthol Gogledd Cymru | £29,684 |
| Cynllun 2014/15 | Galluogi | £121,000 |
| | **Cyfanswm Arbedion i'w Dileu** | **£150,684** |

C. Er mwyn cyflawni'r targed o £81,566 "Arbedion Trawsadrannol i'w Darganfod" yn 2016/17, cymeradwyo defnydd arbedion mae'r Adran Cyllid wedi eu gwireddu yn gynnar.

---

## 1. CYFLWYNIAD / CEFNDIR

Adroddir yma ar gynnydd gwireddu'r arbedion sy'n Strategaeth Arbedion 2015/16 – 2017/18. Mae gwireddu'r cynlluniau unigol yn gyfrifoldeb aelodau perthnasol o'r Cabinet, ac mae'r Aelod Cabinet Adnoddau yn cadw trosolwg o'r darlun cyfan er mwyn adnabod unrhyw broblemau gyda'r drefn, neu unrhyw adran benodol.

Yn Strategaeth Ariannol y flwyddyn 2016/17, rydym wedi cynllunio £9,201,411 o arbedion.

## 2. CYNLLUNIAU ADRANNOL

Mae **Atodiad 1** yn crynhoi cyrhaeddiad pob adran yn erbyn y targed arbedion sydd wedi ei osod am y flwyddyn 2016/17, a'r sefyllfa o ran y cynlluniau hanesyddol sydd wedi llithro. O'r 141 o gynlluniau, mae 128 wedi eu gwireddu yn llawn neu yn rhannol, ond rhagwelir y bydd 20 cynllun neu rhan ohonynt, ynghyd â 12 cynllun hanesyddol, yn llithro. Mae hyn yn golygu bod 92% o gynlluniau 2016/17 bellach wedi cael eu gwireddu, a 2% pellach wedi cyrraedd porth 5.3 (ar trac i gyflawni'n amserol). Rhagwelir felly y bydd o leiaf 94% o arbedion 2016/17 wedi eu gwireddu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Gwelir hefyd bod cynnydd tuag at wireddu'r arbedion hanesyddol oedd wedi llithro am wahanol resymau.

Yn yr Adran Oedolion, bu camau gan y Pennaeth a'r Aelod Cabinet i gyfarch y pryder parthed tan gyflawni a llithriadau gydag amryw o gynlluniau 2014/15 a 2015/16. Bellach, gellid adrodd bod rhywfaint o gynnydd i'w weld gydag amryw ohonynt, sydd wedi cyfrannu tuag at y gostyngiad a ragwelir yn y gorwariant adrannol am y flwyddyn – fel yr adroddwyd i'r Cabinet ar 14 Chwefror yn yr Adolygiad Cyllideb Refeniw (trydydd chwarter). Er hyn, mae her sylweddol yn parhau, gyda sawl cynllun eto i'w wireddu, a chanran yn parhau ym mhorth 5.1 (y rhaglen cyflawni yn llithro neu methu) neu 5.2 (wrthi'n gweithredu, ond ar ôl) ar hyn o bryd.

Mae **Atodiad 2** yn crynhoi'r rhagolwg presennol o ran gwireddu cynlluniau 2017/18.

## 3. CYNLLUNIAU TRAWSADRANNOL

Mae angen dileu'r bwlch o £150,684 o ddau gynllun hanesyddol – "Galluogi" a "Hwb Rhanbarthol Gogledd Cymru". Roedd y ddau gynllun wedi eu datblygu fel rhan o'r nod i adnabod £5m o arbedion Trawsadrannol, ond maent wedi cyflawni llai o arbedion nag oedd wedi ei ragweld. O ganlyniad, argymhellir i'r Cabinet dderbyn hyn yn ffurfiol.

Mae cynlluniau yn parhau i gael eu datblygu i gyflawni "Arbedion Trawsadrannol". Mae'r bwlch am 2016/17 bellach wedi gostwng i £81,566 ond ar hyn o bryd, nid oes cynlluniau sy'n ddigon aeddfed i'w cyflwyno er cymeradwyaeth. Argymhellir defnyddio arbedion sydd wedi eu gwireddu'n gynnar o dri chynllun adrannol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Arbedion caffael (costau banc, cwmni diogelwch, ayb) | £50,566 |
| Arbedion eiddo adrannol yn sgil cau swyddfeydd | £11,000 |
| Arbedion amrywiol trawsffurfio i drefn electronig | £20,000 |
| **Cyfanswm i'w ddefnyddio i fantoli'r targed arbedion** | **£81,566** |

Does dim goblygiadau i drigolion Gwynedd o weithredu'r cynlluniau hyn.

## 4. CASGLIAD

Yn gyffredinol, rwy'n fodlon gyda'r cynnydd yn 2016/17, â'r rhagolygon erbyn 2017/18, ond bydd angen i'r Aelodau Cabinet newydd barhau i fonitro'r cynlluniau arbedion yn 2017/18.

**Barn yr Aelod Lleol**
Dim yn berthnasol

---

**Barn y Swyddogion Statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Mae'n dda medru adrodd ar y cyfran uchel iawn o gynlluniau arbedion sydd wedi eu gwireddu ac sydd wedi eu rhaglennu i wireddu yn y flwyddyn nesaf. Yn amlwg, mae rhai cynlluniau wedi llithro ac mae'n rhaid cyfarch hynny.

Nid oes angen i mi bwysleisio pa mor bwysig yw cadw ffocws clir ar wireddu'r hyn sy'n cael ei gynllunio mor llawn ag sy'n bosib er mwyn gwireddu ewyllys y Cyngor o gynyddu arbedion effeithlonrwydd er mwyn arbed y rheidrwydd i wneud toriadau.

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda’r Aelod Cabinet i baratoi’r adroddiad yma ac yn cadarnhau’r cynnwys.

**Atodiadau:**
Atodiad 1
Atodiad 2